

# Erthygl: Dewisiadau yn 18

## Crynodeb

Mae 'Opsionau yn 18' yn edrych ar y dewisiadau mae'n rhaid i chi eu gwneud ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Mae'n cynnwys manteision ac anfanteision mynd i addysg uwch, neu ddechrau gweithio (gan gynnwys drwy Brentisiaeth a hunangyflogaeth).

## Cyflwyniad

Yn 18 oed, mae gennych chi ddau brif opsiwn. Fe allwch chi fynd i addysg uwch, neu i gyflogaeth, gan gynnwys bod yn fos arnoch chi eich hun.

Os byddwch chi'n penderfynu mynd i addysg uwch, mae gennych chi drydydd posibilrwydd - cymryd blwyddyn o seibiant (neu flwyddyn 'fwlch') rhwng gadael yr ysgol a dechrau astudio.

## Addysg uwch

### Manteision addysg uwch

Mae addysg uwch yn cynnwys graddau, graddau sylfaen, Diplomas Addysg Uwch (DipAU) a Diploma Cenedlaethol Uwch (DCU).

Mae rhai pobl yn elwa'n fawr iawn o addysg uwch. Mae'n bwysig cofio bod rhaid i chi gael gradd i ddilyn rhai gyrfaeod, fel meddyg, deintydd, Peiriannydd Siartredig a llyfrgellydd.

Mae addysg uwch yn gallu bod yn brofiad cadarnhaol iawn. Mae gan brifysgolion a cholegau adnoddau i'ch helpu chi i ddatblygu dealltwriaeth ragorol o'r pwnc rydych chi wedi'i ddewis.

Hefyd mae addysg uwch yn gallu eich helpu chi i ddatblygu'n bersonol ac yn gymdeithasol. Er enghraifft, fe allwch chi adael cartref i fynd i brifysgol. Efallai y byddwch chi wrth eich bodd yn cael mwy o ryddid i fod yn fwy annibynnol a hunangynhaliol, a chael cyfle i weld rhan wahanol o'r wlad a gwneud ffrindiau newydd.

Mae gan brifysgolion gyfleusterau cymdeithasol a chwaraeon rhagorol yn aml, felly fe all hwn fod yn gyfle i chi gymryd rhan mewn hobi newydd.

Gan ddibynnu ar eich cwrs, efallai y cewch chi gyfle i deithio neu astudio dramor am gyfnod. Drwy feddwl a chynllunio'n ofalus, fe allwch chi gael y gorau o'r cyfnodau rhwng y tymhorau (gwyliau) hefyd.

Fe allwch chi wneud rhywbeth a fydd yn ehangu eich gorwelion chi, gan ddysgu sgiliau a chael profiad y bydd cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw.

Er hynny, nid addysg uwch ydi'r opsiwn i bawb. Fe allai fod yn well datblygu sgiliau penodol sy'n ddefnyddiol iawn ar gyfer yr yrfa rydych chi eisiau ei dilyn.

Mae'n gwneud synnwyr i chi ddod o hyd i'r swydd briodol ac wedyn astudio ar gyfer cymwysterau proffesiynol neu gysylltiedig â gwaith tra rydych chi mewn gwaith.

### Cyrsiau Diploma Addysg Uwch

Mae llawer o gyrsiau'n cyfateb i'r ddwy flynedd gyntaf mewn gradd, ac mae rhai'n gwarantu y bydd y myfyrwyr llwyddiannus yn cael mynd ymlaen i ymuno â thrydedd blwyddyn cwrs gradd. Mae DipAU yn gallu bod yn un o'r gofynion wrth fynd ati i ddilyn gyrfa.

### Graddau sylfaen

Mae graddau sylfaen yn gyrsiau addysg uwch cysylltiedig â chyflogaeth. Maent ar gael mewn rhai prifysgolion a cholegau addysg uwch. Fe allwch chi astudio gradd sylfaen prifysgol mewn rhai colegau addysg bellach.

Mae graddau sylfaen llawn amser a rhan amser ar gael ac mae'r dulliau astudio'n gallu bod yn hyblyg hefyd, fel dysgu

o bell.

Mae cwblhau gradd sylfaen yn gyfle i chi symud ymlaen i gwrs gradd cysylltiedig.

### **Diplomas Cenedlaethol Uwch (DCU)**

Mae DCU yn gymhwyster galwedigaethol. Fel rheol mae'n gwrs llawn amser sy'n cymryd dwy flynedd i'w gwblhau. Ar ôl cwblhau DCU, efallai y bydd posib i chi ymuno ag ail flwyddyn cwrs gradd, neu'r drydedd flwyddyn mewn rhai achosion.

### **Graddau**

Os byddwch chi'n dewis gradd, bydd posib i chi ddewis o'r canlynol:

- Astudio pynciau'n unigol neu ar y cyd. Mae rhai prifysgolion yn cynnig graddau modiwlaidd sy'n rhoi rhyddid a hyblygrwydd i chi gynllunio rhan fawr o'ch cwrs.
- Astudio pwnc ar sail y pwnc ei hun neu am ei fod yn berthnasol i waith. Er enghraifft, dydi'r rhan fwyaf o raddau celfyddydol ddim yn eich hyfforddi chi'n uniongyrchol ar gyfer swydd benodol.
- Gwneud cais am radd ryngosod. Gradd gyfun ydi hon gyda blwyddyn o brofiad gwaith. Er enghraifft, efallai y bydd cyflogwr yn y diwydiant peirianeg neu gysylltiedig â gwyddoniaeth yn eich noddi chi.
- Astudio dramor am ran o'r cwrs. Cofiwch mai nid dim ond mewn graddau ieithoedd mae hyn yn digwydd; mae nifer o raddau gwyddonol a chelfyddydol yn cynnig y cyfle yma hefyd.

### **Ystyried beth sy'n eich cymell chi**

Cyn i chi benderfynu gwneud cais am gwrs, mae'n syniad da gofyn ychydig o gwestiynau i chi eich hun:

- A fydd addysg uwch yn fy helpu i yn fy ngyrfa?
- Ydw i wir eisiau astudio'r pwnc yma'n fanwl?
- Ai fy newis i a neb arall ydi hwn, neu ydi fy athrawon neu fy rhieni'n dylanwadu arna' i?
- Ydw i'n barod i fod yn ofalus iawn gydag arian? Sut bydda' i'n teimlo os bydd pobl rydw i'n eu hadnabod yn cael swyddi'n syth ar ôl gadael yr ysgol ac yn ennill arian da?
- Sut rydw i'n teimlo am adael cartref a'r ffrindiau aeth i'r ysgol efo fi?

### **Gwneud eich gwaith cartref**

Os byddwch chi'n penderfynu bod addysg uwch yn addas i chi, mae'n rhaid i chi ymchwilio i'r holl bosibiliadau. Mae hyn yn golygu:

- Edrych ar wefannau prifysgolion i weld a fydd y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn addas i'ch anghenion chi.
- Mynd i gymaint o brifysgolion ag y gallwch chi a siarad gyda'r myfyrwyr yno.

### **Faint o swyddi sydd ar gael i raddedigion**

Mae nifer y swyddi sydd ar gael ar gyfer graddedigion yn dibynnu ar gyflwr yr economi. Pan mae'r economi'n gwneud yn dda, mae'r cyfleoedd yn cynyddu'n gyffredinol, ac mae'r gwrthwyneb yn wir pan nad yw'r economi'n gwneud cystal.

Yn gyffredinol, mae graddedigion yn llai tebygol o fod yn ddi-waith yn ystod eu hoes na phobl eraill.

Mae siawns graddedigion o gael swydd yn dibynnu ar ffactorau fel pwnc eu gradd, eu sgiliau a'u rhinweddau personol, a'r galw am raddedigion o wahanol sectorau'r economi.

Yn gyffredinol, bydd cyflogwyr yn edrych heibio i radd, gan ganolbwyntio ar 'sgiliau meddal' a rhinweddau personol, fel sgiliau cyfathrebu, parodrwydd i ddysgu, hunangymhelliant a dibynadwyedd.

Bydd rhaid i chi ddangos i gyflogwyr bod eich addysg, eich gwaith a'ch profiadau mewn bywyd wedi eich helpu chi i ddatblygu a defnyddio'r sgiliau hyn.

### **Prentisiaethau Gradd**

Mae Prentisiaethau Gradd yn bartneriaeth newydd gyffrous rhwng cyflogwyr a phrifysgolion. Eu bwriad yw rhoi cyfle i bobl ifanc gael gradd ochr yn ochr â phrofiad gwaith go iawn.

Fel Prentis Gradd, byddwch yn rhannu'ch amser rhwng astudio yn y brifysgol a'r gweithle. Byddwch yn cael eich

cyflogi am y cyfnod cyfan, bydd eich ffioedd dysgu yn cael eu talu i chi a byddwch yn ennill gradd neu HND/HNC o brifysgol tra'n ennill cyflog a chael profiad yn y gwaith.

Bydd hyd eich prentisiaeth gradd yn amrywio yn ôl y cwrs a'r diwydiant. Fel arfer, byddant yn cymryd rhwng 4 a 6 blynedd i'w cwblhau.

Mae'r Prentisiaethau Gradd canlynol ar gael ar hyn o bryd:

- Tirfesur Siartredig
- Peirianeg Systemau Electronig
- Peirianeg Awyrofod
- Datblygu Meddalwedd Awyrofod
- Peirianeg Systemau Amddiffyn
- Gwyddor Labordy
- Niwclear
- Systemau Pwer
- Cysylltiadau Cyhoeddus
- Digidol
- Peirianeg Modurol
- Rheolwr Perthynas Bancio
- Adeiladu

## Cyflogaeth

Mae'n well gan rai pobl ddechrau gweithio yn lle mynd i addysg uwch.

Er hynny, rhaid i chi fod yn ofalus rhag gadael i gyflog atyniadol eich temtio chi i swydd na fydd yn cynnig cyfle i chi ddatblygu gyrfa yn y tymor hir. Fe ddylech chi feddwl a fydd cyflogwr yn rhoi hyfforddiant i chi ac yn eich annog i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth.

### Prentisiaethau

Un ffordd arall o 'ennill wrth ddysgu' ydi Prentisiaeth, sy'n cynnwys amrywiaeth eang iawn o feysydd galwedigaethol. Dyma ambell un:

- amaethyddiaeth
- marchnata
- peirianeg
- gwasanaethau teithio
- cyllid

Ar ôl cwblhau cymwysterau Safon Uwch, gallwch ymuno â chynllun Prentisiaeth Uwch, neu un o'r Prentisiaethau Gradd newydd.

I gael gwybodaeth am Brentisiaethau yng Nghymru a Lloegr, edrychwch ar y wefan Prentisiaethau a gwefannau Gyrfa Cymru o dan 'Rhagor o Wybodaeth'.

### Hunangyflogaeth

Mae hunangyflogaeth yn bosibilrwydd arall. Fodd bynnag, 'ddylech chi ddim penderfynu ar yr opsiwn yma heb feddwl a chynllunio'n ofalus – mae'n debygol o olygu llawer o waith caled ac oriau hir. Bydd rhaid i chi gael syniad busnes da a sgiliau a gwybodaeth i redeg eich busnes eich hun. Mae'n bur debyg y bydd arnoch chi angen ffynhonnell o gyllid hefyd i'ch helpu chi i sefydlu'r busnes, er enghraifft, i brynu neu rentu eiddo a thalu am hysbysebu. Mae posib cael help gan sefydliad o'r enw Shell LiveWIRE, sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl rhwng 16 a 30 oed ac yn eu helpu nhw i sefydlu ac ehangu eu busnesau.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Shell LiveWIRE**  
E-bost [enquiries@shell-livewire.org](mailto:enquiries@shell-livewire.org)  
Gwefan [www.shell-livewire.org](http://www.shell-livewire.org)

- **Apprenticeships**  
National Apprenticeship Service (NAS)  
Ffôn 0800 015 0400  
E-bost [nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk](mailto:nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk)  
Gwefan [www.apprenticeships.org.uk](http://www.apprenticeships.org.uk)
- **What Next After School? All you need to know about work, travel and study**  
Author: Elizabeth Holmes Publisher: Kogan Page
- **Careers Wales (Provides careers information, advice and guidance)**  
Gwefan [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)